O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 706 (Cy.109)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003 er mwyn ychwanegu budd-dal neu lwfans ychwanegol sy'n rhoi'r hawl i blentyn hawlydd gael prydau bwyd a llety am ddim ar daith breswyl.

Mae Credyd Pensiwn y Wladwriaeth wedi ei ragnodi at ddibenion adran 457 o Ddeddf Addysg 1996 cyhyd â bod yr hawlydd yn derbyn y rhan credyd gwarant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn rhagnodi, at ddibenion adran 457(4)(b)(iii) o Ddeddf Addysg 1996, pan fo gan riant C hawl i Gredyd Treth i Blant ond nid i Gredyd Treth i Bobl sy'n Gweithio ac mae'n cael Credyd Treth i Blant yn seiliedig ar incwm blynyddol nad yw'n uwch na £16,190, bydd hawl gan C i gael ciniawau ysgol am ddim.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 706 (Cy.109)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed *9 Mawrth 2011*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *10 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 457(4)(b)(iii) a 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "Credyd Treth i Blant" a "Credyd Treth i Bobl sy'n Gweithio" yr ystyr a roddir i "*Child Tax Credit*" a "*Working Tax Credit*" yn Neddf Credydau Treth 2002(**3**);

(**1**) 1996 p.56. Disodlwyd adran 457(4)(b) gan adran 200 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hynny i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002 a'u trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2002 p.16.

ystyr "incwm blynyddol" ("*annual income*") yw'r incwm am y flwyddyn dreth wedi ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(**1**); ac

ystyr "Rheoliadau 2003" *("the 2003 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Peidio â chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003(**2**).

Diwygio

3.—(1) Yn lle rheoliad 4 o Reoliadau 2003 rhodder—

"Credydau Treth Rhagnodedig

4. Rhagnodir Credyd Treth i Blant at ddibenion adran 457(4)(b)(iii) o Deddf 1996—

(a) pan fo gan riant C hawl i Gredyd Treth i Blant ond nid i Gredyd Treth i Bobl sy'n Gweithio; a

(b) pan fo rhiant C yn cael Treth Credyd i Blant yn rhinwedd dyfarniad sydd wedi ei seilio ar incwm blynyddol nad yw'n uwch na'r swm o £16,190.".

(2) Ar ôl rheoliad 4 o Reoliadau 2003 mewnosoder—

"**Credyd Pensiwn y Wladwriaeth**

5. Mae Credyd Pensiwn y Wladwriaeth sy'n daladwy o dan adran 1 o Ddeddf Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002(**3**) wedi ei ragnodi at ddibenion adran 457(4)(b)(iii) o Ddeddf 1996 mewn amgylchiadau pan yw'r rhiant yn derbyn y credyd gwarant.".

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

9 Mawrth 2011

(**1**) O.S. 2002/2006, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/732, 2003/2815, 2004/2663, 2006/745, 2006/766, 2007/824, 2007/1305 a 2008/2169.
(**2**) O.S. 2003/860 (Cy.107).
(**3**) 2002 p.16.